Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 14 Hydref 2015
Y Ganolfan Reolaeth, Prifysgol Bangor

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Siwan Davies (bore), Dr Mererid Hopwood, Yr Athro Carwyn Jones, Delyth Murphy, Yr Athro Eleri Pryse, Gwerfyl Roberts, Llŷr Roberts, Yr Athro Deri Tomos

Aelodau (Sefydliad): Julie Brake, Gwawr Jones, Dr Elin Royles, Daniel Tiplady, Yr Athro Enlli Thomas, Dr Catrin Haf Williams

Aelodau (Myfyrwyr): Rhydian Birkinshaw, Poppy Evans, Aled Thomas

Aelodau (Colegau Cymru): Llinos Roberts, Linda Wyn

Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Gwennan Schiavone (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau: Jacob Ellis, Dr Dylan Foster Evans, Dr Gwenno Ffrancon, Catrin Howells, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Gwyndaf Lewis, Dr Lisa Lewis, Yr Athro Densil Morgan, Carys Swain, Gaynor Williams

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Diolchwyd i Brifysgol Bangor am letya'r cyfarfod. 1.3. Croesawyd Dr Mererid Hopwood, Dr Elin Royles, Daniel Tiplady a Dr Catrin Haf Williams i'w cyfarfod cyntaf. 1.4. Estynnwyd croeso, yn ogystal, i Gwawr Jones, Prifysgol De Cymru (ar ran Dr Lisa Lewis). 1.5. Croesawyd Rhydian Birkinshaw, Poppy Evans ac Aled Thomas, fel cynrychiolwyr myfyrwyr 2015/16. 1.6. Nodwyd diolch i'r aelodau staff a oedd yn gyfrifol am lwyddiant digwyddiadau'r Coleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. 1.7. Nododd y Prif Weithredwr werthfawrogiad i'r Deon am ei		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	gefnogaeth dros yr wythnosau diwethaf ac estynnwyd cydymdeimlad iddo ar achlysur colli ei fam.		
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Nodwyd buddiannau fel a ganlyn mewn perthynas â materion ar yr agenda: • Llŷr Roberts – aelod o Fwrdd Rheoli'r Eisteddfod Genedlaethol • Dr Elin Royles – aelod o'r Adran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol, Prifysgol Aberystwyth		
3. Adroddiad ar ddyfodol a sefyllfa gyllidebol y Coleg	3.1. Cafwyd diweddariad ar y trafodaethau cyfredol ynghylch sefyllfa gyllidebol y Coleg wedi 31 Gorffennaf 2017 gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd. 3.2. Adroddwyd, y bydd lleihad yng nghyllideb y Coleg yn ystod y ddwy flynedd nesaf ond nad yw hyn yn annisgwyl yn y cyd-destun cyllidol presennol. Trafodwyd y sefyllfa gan Gyfarwyddwyr y Coleg ar 22 a 23 Medi 2015 a bydd cyllideb ddiwygiedig yn cael eu hystyried yn eu cyfarfod ar 25 Tachwedd 2015. 3.3. Adroddwyd y bydd nifer o arbedion yn cael eu hadnabod oddi fewn i gyllideb y flwyddyn academaidd hon er mwyn diogelu elfennau eraill o waith yn Coleg yn y tymor canolig, tan i'r sefyllfa gyllidebol tymor hir ddod yn gliriach. Bydd disgwyliad hefyd bod sefydliadau yn cymryd cyfrifoldeb dros gynnal lefelau darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn achosion lle daw cyfnodau cyllido swyddi drwy'r Coleg i ben. 3.4. Yn sgil yr heriau presennol, cytunwyd y dylid parhau i ledaenu newyddion da ynghylch cyraeddiadau'r Coleg er mwyn cynorthwyo gyda'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth maes o law. Adroddwyd bod cynlluniau ar droed gan y Coleg i ddwyshau'r gwaith hwn.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2015	4.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
5. Aelodaeth	5.1. Nodwyd bod y prosesau priodol wedi mynd rhagddynt i lenwi'r bylchau ar y Bwrdd Academaidd a derbyniwyd y tabl aelodaeth gyfredol ar y bwrdd. 5.2. Nodwyd bod Llŷr Roberts yn ddarlithydd ar y cyd rhwng Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. 5.3. Yn sgil cwestiwn gan aelod eglurwyd y cefndir dros drefnu cynrychiolaeth myfyrwyr ar sail ranbarthol.	NB i newid y tabl aelodaeth	Hydref 2015
6. Materion academaidd (BA/15/03/06)	6.1. Cyflwynwyd adroddiad ar waith cynllunio academaidd gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd. 6.2. Adroddwyd bod y Coleg yn gohirio rhai o'r adolygiadau pynciol a amlinellwyd yng nghyfarfod yr haf tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Byddai'n fwy addas eu cynnal pan fydd mwy o wybodaeth am lefelau cyllido yn y dyfodol. 6.3. Adroddwyd y bwriedir paratoi a chymeradwyo Cynllun Academaidd newydd yn ystod y ddwy flynedd nesaf. 6.4. Bydd cynlluniau pynciol gweithredol yn cael eu creu gan gynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth y sector ôl-16. 6.5. Derbyniwyd adroddiad llafar ar yr adolygiad pynciol Gwleidyddiaeth gan Dr Gwennan Schiavone. Adroddodd ar yr argymhellion a gytunwyd gan y panel adolygu a gyfarfu ar 1 Gorffennaf 2015. Bydd gweithredu'r argymhellion yn amodol ar gyllideb y Coleg. Nodwyd nad oes modd, ar hyn o bryd, i'r Coleg ymrwymo i ddarparu grantiau mewn unrhyw faes neu bwnc ar gyfer y cyfnod wedi 2016/17.		
7. Cynllun Staffio	7.1. Derbyniwyd adroddiad llafar ar sefyllfa gyfredol y Cynllun Staffio gan Dr Dylan Phillips.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	7.2. Adroddodd bod cylch olaf penodiadau'r Cynllun Staffio wedi dechrau yn eu swyddi ar 1 Medi 2015. Mae'r rhaglen benodiadau a oedd yn deillio o Adroddiad yr Athro Robin Williams bellach wedi dod i ben. 7.3. Adroddwyd bod rhai prifysgolion eisoes wedi ymrwymo i gyllido rhai swyddi lle daw cyfnod cyllido'r Coleg i ben yn 2016. 7.4. Nodwyd sensitifrwydd y sefyllfa mewn perthynas â swyddi unigol ond nodwyd pwysigrwydd cadw golwg ar anghenion y myfyriwr, anghenion y sector gyhoeddus a chyflogwyr. 7.5. Yn sgil cwestiwn gan gynrychiolydd myfyrwyr, esboniwyd y sefyllfa ddiweddaraf o ran llenwi swydd Nyrsio ym Mhrifysgol Abertawe.	DP i gadw golwg ar sefyllfa penodi darlithydd Nyrsio	Tymor yr Hydref 2015
8. Ffynonellau cyllid amgen i'r Coleg	8.1. Cafwyd adroddiad llafar ar ffynonellau cyllid posibl gan y Prif Weithredwr. Eglurwyd bod y Cyngor Cyllido yn annog y Coleg i archwilio posibiliadau cyllido o ffynonellau eraill. Cafwyd trafodaeth ar ystyriaethau ymarferol cystadlu am gyllid Ewropeaidd. 8.2. Yn sgil y drafodaeth cyfeiriwyd at gytundeb rhwng y Coleg a'r Eisteddfod Genedlaethol i gyd-lynu'r Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg am dair blynedd gan ddechrau yn Sir Fynwy yn 2016.		
9. Pwyllgor Cydweithio Academaidd	9.1. Nodwyd cofnodion drafft 16 Medi 2015, er gwybodaeth, gyda chywiriad i eitem 5.3. 9.2. Nodwyd y byddai'r Coleg yn paratoi adroddiad cryno o'r prosiectau cydweithredol a gymeradwywyd gan y pwyllgor yn ystod 2014/15 erbyn cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 20 Ionawr 2016.		
10. Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil	10.1. Derbyniwyd diweddariad llafar gan Dr Dylan Phillips ar Gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	10.2. Nodwyd bod 40 o fyfyrwyr doethuriaeth gan y Coleg yn gyfredol a nad oedd sicrwydd a fyddai cyfleoedd ar gyfer ceisiadau newydd eleni. 10.3. Yn sgil cais gan aelod o'r Bwrdd Academaidd ynghylch defnydd o'r iaith Gymraeg y tu allan i'r ysgol ym maes Chwaraeon argymhellwyd y dylid darparu gwybodaeth prosiect Dilyniant a Sgiliaith iddo.	Swyddogion i ddarparu gwybodaeth Dilyniant i CJ	Hydref 2015
11. Adolygiad Ysgoloriaethau Israddedig	11.1. Cafwyd cyflwyniad ar adolygiad yr Ysgoloriaethau Israddedig gan y Cofrestrydd, Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y Llywodraeth wedi cadarnhau parhad i gyllideb yr Ysgoloriaethau. 11.2. Nodwyd y comisiynwyd yr adolygiad gan y Coleg yn sgil argymhellion adroddiad Old Bell 3. Cynhaliwyd yr ymchwil yn ystod tymor yr Haf 2015 gan Dylan Bryn Roberts, Gweriniaith. Trafodwyd argymhellion yr adolygiad yng Ngrŵp Ymgynghorol y Coleg. 11.3. Nodwyd argymhellion tymor hir, fel a ganlyn: • Ystyried cyllideb yr Ysgoloriaethau • Blaenoriaethu rhai pynciau Prif Ysgoloriaeth e.e. Iechyd a Gwyddoniaeth 11.4. Nodwyd argymhellion tymor canolig, fel a ganlyn: • Lleihau nifer y prif Ysgoloriaethau • Dyddiad cau'r Ysgoloriaethau Cymhelliant 11.5. Nodwyd yr argymhellion gweithredol canlynol: • Ffurflen electronig • Hyrwyddo manteision cyflogadwyedd • Defnydd sianelau technolegol i hybu a hyrwyddo • Ymestyn i gynulleidfaoedd 'newydd' 11.6. Trafodwyd (i) a ddylid lleihau nifer y Prif Ysgoloriaethau, (ii) a ddylid trosglwyddo'r broses dyfarnu i'r prifysgolion unigol ac (iii) a oes angen dau ddyddiad cau i'r Ysgoloriaethau Cymhelliant? Argymhellwyd y dylid gosod		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	dau ddyddiad cau i'r Ysgoloriaethau Cymhelliant.		
12. Cyflwyniad gan Brifysgol Bangor	12.1 Cafwyd cyflwyniad gan Dr Llion Jones a Dr Lowri Hughes ar 'Saith Rhyfeddod Cangen Bangor'. Diolchwyd iddynt am eu cyflwyniad ar gydberthynas y gangen, y brifysgol a'r gymuned.		
13. Strategaeth Ymchwil	13.1 Nodwyd cofnodion drafft y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi, 3 Mehefin 2015, er gwybodaeth. 13.2 Nodwyd y derbyniodd y Bwrdd Cyfarwyddwyr y Strategaeth Ymchwil a Chyhoeddi yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin 2015. 13.3 Nodwyd y dyfarnwyd Gwobr *Gwerddon* am y tro cyntaf i Nia Blackwell am yr erthygl orau yn ystod 2014. Noddwyd y wobr gan y Gymdeithas Ddysgedig. 13.4 Adroddodd y Deon ar gyfarfod gyda Gwasg Prifysgol Cymru ar 14 Medi 2015 pan drafodwyd materion yn ymwneud â'r berthynas rhwng y Coleg a'r Wasg.		
14. Ehangu mynediad a chyfranogiad	14.1. Nodwyd cofnodion drafft y Pwyllgor Ehangu Mynediad, 4 Mehefin 2015, er gwybodaeth. 14.2. Cafwyd diweddariad ar waith y pwyllgor gan Delyth Murphy, Cadeirydd y pwyllgor. Adroddwyd nad oedd cynrychiolydd myfyrwyr ar y pwyllgor a gwirfoddolodd Aled Thomas fel aelod.	DM ac AT i gyfathrebu	Hydref 2015
15. Mwy na Geiriau	15.1. Cafwyd adroddiad llafar ar 'Mwy na Geiriau' gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd. 15.2. Nodwyd bod trafodaethau rhwng y Coleg a'r Llywodraeth i sicrhau bod gwaith y Coleg ym maes Iechyd ynghlwm â strategaeth Iechyd y Llywodraeth. 15.3. Nodwyd yn ogystal bod y Coleg wedi cynnig dull gweithredu ynghylch adnoddau electronig dwyieithog i'r		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Gwasanaeth Iechyd. 15.4. Diolchwyd i swyddogion y Coleg ac i Gwerfyl Roberts am arwain yn y maes hwn.		
16. Panel Safoni'r Gymraeg (BA/15/03/14)	16.1. Cafwyd adroddiad ar ddatblygiadau mewn perthynas â sefydlu Panel Safoni'r Gymraeg gan Dr Gwennan Schiavone. 16.2. Eglurwyd bod y panel wedi'i sefydlu ar gais Comisiynydd y Gymraeg a bwriedir penodi cadeirydd ac aelodau i'r panel maes o law. Derbyniwyd y cylch gorchwyl drafft a'r papur trafod, er gwybodaeth.		
17. Papur trafod y myfyrwyr (BA/15/03/15)	17.1. Cafwyd cyflwyniad ar bapur trafod y myfyrwyr, 'Prinder darlithwyr mewn rhai meysydd', gan Poppy Evans ar ran Jacob Ellis. 17.2. Yn deillio o'r pryderon a godwyd yn y papur ac ar lafar cytunwyd y dylai Cadeiryddion canghennau'r Drindod Dewi Sant, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth baratoi adroddiadau ymateb byr i geisiadau'r myfyrwyr. 17.3. Yn deillio ymhellach o'r drafodaeth argymhellwyd y dylai'r Bwrdd Academaidd baratoi proses arfer da a rhannu adnoddau ynghylch myfyrwyr ag anghenion arbennig. Gellid cydweithio ag addysg bellach ynghylch hyn yn sgil eu profiad. 17.4. Yn ogystal, nodwyd y cyfle i ddefnyddio fforwm y myfyrwyr yn llawn i leisio barn a sefydlu prosesau i ganfod gwybodaeth. 17.5. Nodwyd bod sesiwn hyfforddi myfyrwyr i'w gynnal eleni ar 30 Hydref 2015. 17.6. Atgoffwyd y myfyrwyr y byddai disgwyl iddynt benderfynu ar bwnc a chyflwyno papur trafod i'r cyfarfod nesaf ar 3 Chwefror 2015.	NB i gyd-lynu'r ymatebion NB i atgoffa'r myfyrwyr	Tymor yr Hydref 2015 Erbyn Ionawr 2016

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
18. Materion yn codi	18.1. <u>Eitem 6: Ieithoedd Modern</u> Nodwyd y penodwyd cydlynydd cenedlaethol i arwain y gweithgaredd cydweithredol hwn. 18.2 <u>Eitem 16.2: Perthynas y Coleg â'r sector addysg bellach</u> Adroddwyd bod y Coleg yn parhau i gynnal trafodaethau gyda'r sector addysg bellach i ganfod cyfleodd i gydweithio yn sgil Llythyr Gorchwyl y Coleg gan y Cyngor Cyllido. 18.3 <u>Eitem 16.3: Gwobr Merêd</u> Nodwyd y dyfarnwyd Gwobr Merêd, yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod am y tro cyntaf eleni, i Trystan ap Owen. Nodwyd ymhellach y bydd gwobr bellach yn cael ei sefydlu er cof am John Davies. 18.4 <u>Eitem 16.4: Prifysgol Glyndŵr</u> Nodwyd bod y Prif Weithredwr wedi cyfarfod ag Is-Ganghellor Prifysgol Glyndŵr i drafod camau i gryfhau perthynas y Coleg â Phrifysgol Glyndŵr.		
19. UFA	19.1. Nodwyd bod Gwerfyl Roberts gyda chefnogaeth y Panel Nyrsio wedi codi cwyn gyda'r Comisiynydd Iaith ynghylch y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a bod y Comisiynydd wedi cyhoeddi adroddiad yn beirniadu'r Cyngor. 19.2. Nodwyd bod canghennau Abertawe a Chaerdydd wedi dod ynghyd ar gyfer un cyfarfod i rannu sylwadau a syniadau. 19.3. Nodwyd y cynhelir cynhadledd cyfrwng Cymraeg gan y Gymdeithas Feddygol yng Nghaerdydd ar 24 a 25 Hydref 2015.		
20. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	20.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol: • 3 Chwefror 2016, Prifysgol Abertawe • 11 Mai 2016, Caerdydd		